**Rhif:** WG39220

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Drafft

Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Addysg) (Cymru) 2020; &
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Ebrill 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

# Teitl yr ymgynghoriad

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael addysg addas. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar reoliadau drafft a fydd yn galluogi ALlau i lunio rhestr resymol gyflawn sy'n cynnwys pob plentyn yn ardal yr awdurdod lleol a'r addysg y mae'n ei chael.

**Sut i ymateb**

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu eu postio i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 22 Ebrill 2020 fan bellaf.

E-bost: Gellir anfon ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad i
WELLBEINGshare@llyw.cymru
WELLBEINGshare@gov.uk

Nodwch "**Ymgynghoriad ar reoliadau drafft – WG39220**" yn y llinell destun.

Post: Gellir anfon ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad i:
Ymgynghoriad ar Ganllawiau Rheoliadau Drafft
Tîm Cynhwysiant Dysgwyr
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghori

**Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

Llywodraeth Cymru
e-bost: WELLBEINGshare@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw na'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog 2

1. Cyflwyniad 2
2. Y Rheoliadau 5
3. Gwybodaeth a ddelir ar y gronfa ddata 5
4. Diogelu Data a Mynediad 6
5. Hawliau Dynol 7
6. Casgliad 7

## Rhagair gan y Gweinidog

Ym mis Ionawr 2018[1], cyhoeddais fy mwriad i ddefnyddio pwerau presennol a geir yn adran 29 o Ddeddf Plant 2004 i wneud y canlynol:

- ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu a chynnal ei gronfa ddata ei hun i'w helpu i adnabod plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir, nac ar gofrestr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nac ar gofrestr ysgol annibynnol, ac nad ydynt yn cael addysg addas;
- ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol (BILlau) ddatgelu i awdurdodau lleol wybodaeth anghlinigol benodol am blentyn sydd yn preswylio fel arfer yn ardal awdurdod lleol;
- ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol yng Nghymru ddatgelu data ar y disgyblion sydd wedi'u cofrestru â nhw i awdurdodau lleol.

Bydd Rheoliadau Cronfa Ddata Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 drafft a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y cynigion hyn.

Bydd y Rheoliadau hyn yn galluogi pob awdurdod lleol i lunio rhestr resymol gyflawn sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal, er mwyn sicrhau ei fod yn cael addysg addas, ni waeth ble mae hynny'n digwydd. Caiff hyn ei gyflawni drwy gymharu data addysg, data byrddau iechyd lleol a data gan ysgolion annibynnol â'i gilydd er mwyn llunio rhestr o blant o fewn ardal yr awdurdod lleol.

Nid yw'r Rheoliadau yn cael eu cyflwyno ar eu pennau eu hunain ac maent yn rhan o gyd-destun ehangach diwygio addysg fel y nodir yn *Addysg yng Nghymru*: *Cenhadaeth ein Cenedl*[2] – cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-21 sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgais i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn meddu ar y sgiliau cywir i gael ymrwymiad byd newidiol i lwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau personol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn ymgynghoriad ar y canllawiau statudol i ALlau ar addysg yn y cartref a'r llawlyfr i addysgwyr yn y cartref a gynhaliwyd rhwng 29 Gorffennaf a 25 Hydref 2019. Yn yr ymgynghoriad hwnnw, gofynnwyd cwestiwn penodol am y cynigion ar gyfer y gronfa data ac mae'r ymatebion wedi helpu i lywio'r ymgynghoriad hwn ar y rheoliadau drafft. Ond gadewch imi fod yn glir, nid yw'r rheoliadau ar y gronfa ddata yn ymyrryd â dewis rhieni i roi addysg yn y cartref.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i bawb fynegi barn. Nododd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y canllawiau statudol wahanol bryderon ynglŷn â chronfa ddata. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai ymatebwyr ymhelaethu ar eu pryderon penodol r mwyn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn ar y cynnig.

Kirsty Williams AC

---

[1] https://record.assembly.wales/Plenary/4901#A10000068

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar reoliadau drafft a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol (ALl) unigol sefydlu a chynnal ei gronfa ddata ei hun sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal.

Bydd Rheoliadau Cronfa Ddata Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 drafft a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon. Ni fydd angen cydsyniad datganedig.

O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996[3] ("Deddf 1996"), mae dyletswydd ar ALlau i wneud trefniadau i adnabod plant yn eu hardaloedd sydd o oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn cael addysg addas.

Mae Adran 436A o Ddeddf 1996 yn darparu'r canlynol:
(1) A local authority must make arrangements to enable them to establish (so far as it is possible to do so) the identities of children in their area who are of compulsory school age but: —

(a) are not registered pupils at a school, and

(b) are not receiving suitable education otherwise than at a school.

(2) In exercising their functions under this section a local authority must have regard to any guidance given from time to time by the Secretary of State.

(3) In this Chapter, "suitable education", in relation to a child, means efficient full-time education suitable to his age, ability and aptitude and to any special educational needs he may have.

Bwriedir i'r rheoliadau ar y gronfa ddata helpu ALlau i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 436A o Ddeddf 1996.

[3] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/436A

Ar hyn o bryd, nid oes gan ALlau ddull dibynadwy na chyson o adnabod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal nad yw erioed wedi mynychu'r ysgol, a/neu sy'n colli addysg. Mae dulliau presennol ar gael i ALlau ddod i wybod am blant nad ydynt yn hysbys i'r ALl ar y pryd a/neu sy'n colli addysg e.e. y gofrestr genedigaethau byw, hysbysiad dadgofrestru ysgol. Nid yw'r gofrestr genedigaethau byw o gymorth pan fydd plant wedi newid cyfeiriad neu wedi symud i ffwrdd o ALlau neu i mewn i ALl; yn yr un modd, dim ond y plant hynny sydd wedi mynychu ysgol brif ffrwd sy'n cael eu cynnwys mewn gwybodaeth dadgofrestru ysgolion.

Rydym wedi ystyried y dulliau hyn ar y cyd â'r ALlau ac wedi dod i'r casgliad nad yw'r dulliau hyn yn cynnig dulliau dibynadwy na chyson o adnabod plant.

Mae'n nodwedd ar gymdeithasau cyfoes bod dinasyddion yn cael eu cynnwys ar nifer o gronfeydd data[4], gan nifer o asiantaethau sy'n gyfrifol am wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau a dargedir, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r gofrestr genedigaethau byw, y dreth gyngor, y gofrestr etholwyr, yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) i'r rhai sy'n cael unrhyw fudd-daliadau.

Bydd ei gwneud yn ofynnol i bob ALl sefydlu cronfa ddata sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal yn helpu ALlau i adnabod pob plentyn yn eu hardal. Os nad yw'n gwybod pwy sydd yn ei ardal, ni all ALl asesu pwy sydd ddim yn cael addysg addas. Felly, dylai'r gronfa ddata helpu ALlau i gydymffurfio â swyddogaethau o dan adran 436A o Ddeddf 1996.

Dylai'r rheoliadau sicrhau bod eglurder a chysondeb o ran y gweithgareddau y mae pob awdurdod lleol yn ymgymryd â nhw er mwyn poblogi ei gronfa ddata ei hun.

Bydd y rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i BILlau ac Ysgolion Annibynnol ddatgelu i'r ALl unrhyw wybodaeth (anghlinigol yn achos BILlau) y mae'r corff yn ei dal mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc o oedran ysgol gorfodol. Bydd y gronfa ddata yn cynnwys rhestr resymol gyflawn sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol, ni waeth

[4] Yn ôl diffiniad geiriadur Collins, mae cronfa ddata yn gasgliad o ddata sy'n cael ei storio ar gyfrifiadur y gellir ei ddefnyddio ac ychwanegu ato'n hawdd.

ble mae'n yn cael ei addysg. **Ni fydd hon yn gronfa ddata ganolog i Gymru gyfan – bydd pob ALl yn cynnal ei gronfa ddata ei hun.** Nid adnodd olrhain ydyw – bwriedir i ddata gael eu datgelu unwaith y flwyddyn a bydd yn darparu data mor gywir â phosibl ar adeg benodol. Ni fydd yn gronfa ddata fyw.

## 2. Y Rheoliadau

O dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004[5] gellir gwneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau ddatblygu a chynnal cronfa ddata sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal. Mae'r rheoliadau yn pennu'r sail gyfreithiol dros rannu data. Nid yw'r rheoliadau yn cynnwys unrhyw elfen droseddol mewn perthynas â rhieni. **Ar yr ALlau a'r BILlau yn unig y gosodir y gofyniad o dan y rheoliadau**.

Bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob ALl gynnal a phoblogi cronfa ddata sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal, a fydd yn helpu ALlau i adnabod plant yn eu hardaloedd nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd a / neu sy'n colli addysg.

Bydd y rheoliadau yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael addysg addas yn unol ag Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[6] ac Erthygl 2 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Drwy wneud hyn, mae Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu ei hymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael addysg sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt gyflawni eu potensial.

## 3. Gwybodaeth a ddelir ar y gronfa ddata

Bydd y rheoliadau yn nodi'r wybodaeth ganlynol am blant o oedran ysgol gorfodol (ni waeth ble maent yn cael eu haddysg) i'w dal ar y gronfa ddata:

- enw'r plentyn
- cyfeiriad cyfredol y plentyn

[5] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/section/29

[6] https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/unicef-convention-rights-child-uncrc.pdf?_ga=2.160711869.1208858048.1575366836-1339842348.1571230189

- rhywedd y plentyn
- dyddiad geni'r plentyn
- enw a manylion cyswllt unrhyw riant i'r plentyn
- enw a manylion cyswllt unrhyw sefydliad addysgol y mae'r plentyn yn ei fynychu.
- lle mae'r plentyn yn cael addysg heblaw mewn sefydliad addysgol, enw a manylion cyswllt person neu gorff sy'n rhoi'r cyfryw addysg;
- lle mae'r plentyn wedi marw, dyddiad marwolaeth y plentyn.

Bydd y wybodaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i ddata gan BILlau ac ysgolion annibynnol gael eu paru â data'r ALl. Dim ond er mwyn adnabod plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal ALl y gellir gofyn am y wybodaeth o dan y rheoliadau.

Bydd Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Ysgolion Annibynnol yng Nghymru ddatgelu i ALl unrhyw wybodaeth am ddysgwyr sydd ar gofrestr eu sefydliad.

## 4. Diogelu data a mynediad

Wrth ddatblygu'r cynigion, rydym wedi ystyried materion a phryderon o ran diogelwch data. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt gyda swyddogion diogelu data Llywodraeth Cymru ac mae'n ofynnol inni gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. O ganlyniad, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â datblygu'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a byddant yn parhau i wneud hynny drwy gydol y broses hon.

Caiff y data a ddelir ar y gronfa ddata eu cyfyngu i'r hyn sy'n gymesur ac yn rhesymol er mwyn sicrhau bod gan ALl gronfa ddata resymol gyflawn sy'n cynnwys pob plentyn o oedran addysg gorfodol yn ardal yr ALl a ble maent yn cael eu haddysg. Bydd yn helpu'r ALl i ymgymryd â'i swyddogaethau o dan adran 436A o Ddeddf 1996. **Ni fydd gofyniad ar BILlau i rannu gwybodaeth glinigol/meddygol.** Ni fydd y data yn cael eu rhannu fel mater o drefn, ac os caiff y data eu rhannu bydd angen pwrpas, nod dilys, megis sicrhau llesiant plentyn neu berson ifanc. Bydd asesiad tra manwl ar sail gwybodaeth (cymesuredd) yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod rhannu data yn gydwedd â deddfwriaeth diogelu data a mesurau cyfreithiol eraill sy'n diogelu plant, pobl ifanc a rhieni.

Ni fydd y rheoliadau yn dwyn risgiau ychwanegol i ddiogelwch data plant. Mae ALlau eisoes yn dal cryn dipyn o ddata ar y rhan fwyaf o'r plant yn eu hardaloedd ac mae systemau ar waith eisoes ganddynt i gadw'r wybodaeth hon yn ddiogel. Mae gan bob ALl restrau 'Cadw a Gwaredu' cynhwysfawr. Mae'r safonau rheoli cofnodion hyn yn hanfodol er mwyn i ALl gyflawni ei gyfrifoldebau deddfwriaethol, er enghraifft cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth a deddfau Llywodraeth Leol a rhwymedigaethau eraill.

Bydd mynediad at y gronfa ddata wedi'i gyfyngu i swyddogion yr ALl y mae angen iddynt gael mynediad i wneud eu gwaith mewn perthynas â derbyniadau ysgol a phresenoldeb, dyletswyddau mewn perthynas â lles plant ac anghenion dysgu ychwanegol.

## 5. Hawliau Dynol

Rydym wedi ystyried unrhyw faterion a all godi o ran hawliau dynol mewn perthynas â'r rheoliadau a byddwn yn parhau i wneud hynny. Ni fydd y rheoliadau yn ymyrryd â hawl rhieni i addysgu eu plant yn unol â'u hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol eu hunain. Mae'r rheoliadau wedi'u hanelu at ALlau, ac nid ydynt yn gosod unrhyw ofynion newydd ar rieni. Credwn fod y rheoliadau'n gymesur am eu bod yn cefnogi nod dilys, sef helpu i sicrhau hawl plentyn i addysg addas.

## 6. Casgliad

Er mwyn ymgymryd â swyddogaethau addysg penodol, mae angen i ALlau wybod manylion penodol plant y maent yn gyfrifol amdanynt yn eu hardal. Diben y rheoliadau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu a chynnal ei gronfa ddata ei hun sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal. Bydd y gofyniad ychwanegol ar fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol i ddatgelu gwybodaeth i'r ALl yn ei helpu i lunio cronfa ddata resymol gynhwysfawr sy'n cynnwys pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal.